OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 47 (Cy.6)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *14 Ionawr 2002* |
| *Yn dod i rym (ac eithrio paragraffau (2), (3), (4) a (5), o reoliad 2, a ddaw i rym ar 1 Rhagfyr 2002)* | *1 Chwefror 2002* |

Drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(b), (c), (d), (e) ac (f), (3), 17(1), 19(1)(b), 26 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), a pharagraffau 5(1)(a) a (2)(a) a 6(1)(a) o Atodlen 1 iddi, sydd bellach yn arferadwy mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), gan roi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) o'r Ddeddf honno;

A chan ei fod wedi'i ddynodi(**3**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**4**)) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddir gan yr adran honno i'r graddau y mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996(**5**);

mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Teitl, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Teitl y Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001 a byddant yn gymwys i Gymru yn unig.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Chwefror 2002, ac eithrio paragraffau (2), (3), (4) a (5) o reoliad 2, a ddaw i rym ar 1 Rhagfyr 2002.

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) Cafodd swyddogaethau "the Secretary of State" i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672, fel y'i diwygiwyd gan adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

(**3**) O.S. 1999/2788

(**4**) 1972 p.68.

(**5**) OS 1996/3124, fel y'i diwygiwyd gan OS 1997/3023, OS 1998/994, OS 1999/683, OS 2000/656, OS 2000/1885 (Cy. 131), OS 2000/2257 (Cy.150), OS 2001/1660 (Cy.119), OS 2001/2198 (Cy. 158) ac OS 2001/2219 (Cy. 159)

**Diwygiadau i Reoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) 1995**

**2.**—(1) I'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, caiff Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) 1995(**6**) eu diwygio yn unol â'r paragraffau canlynol yn y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) caiff y diffinaidau canlynol eu mewnosod yn y lle priodol yn yr wyddor—

““farmer” means any person who is an agricultural producer and manages a holding;”; a

““holding” means an agricultural production unit situated in Great Britain managed by a farmer;”.

(3) Ym mharagraff (1) o reoliad 3 (esemptiadau ac eithriad ar gyfer trwyddedau presennol)—

(a) yn lle is-baragraff (b) rhoddir yr is-baragraffau canlynol—

“(b) subject to paragraphs (2), (3) and (4) below, in so far as a farmer who annually rears and slaughters on the aggregate of all his holdings under 10,000 birds or under 10,000 rabbits sells small quantities of fresh poultry meat, small quantities of fresh farmed game bird meat or small quantities of fresh rabbit meat derived from those birds or rabbits—

(i) direct to the final consumer at the holding where the birds or the rabbits were reared and slaughtered;

(ii) direct to the final consumer at the local market nearest to the holding where the birds or the rabbits were reared and slaughtered;

(iii) direct to retailers for sale direct to the final consumer, provided the retailers make such sales in the same locality as, or in a neighbouring locality to, the holding where the birds or the rabbits were reared and slaughtered; or

(iv) at a market (other than a local market) during the period of two weeks which immediately precede Christmas Day and Easter Sunday each year;

(bA) in so far as a producer who annually rears and slaughters under 10,000 rabbits sells fresh rabbit meat derived from rabbits the producer has reared and slaughtered at premises under the producer’s control direct to a person who buys the meat for the person’s own consumption;”; a

(b) yn is-baragraff (g), mewnosodir “(bA)” cyn “(c)”.

(4) Yn rheoliad 3, yn lle paragraff (2) rhoddir y canlynol—

“(2) The exemption in paragraph (1)(b) above shall not apply to any itinerant sale or sale by mail order or, as regards a sale by a retailer, any sale by the retailer at a market.”.

(5) Yn rheoliad 3(3) a (4), yn lle'r gair “slaughterhouse” rhoddir y gair “holding”.

(6) Yn rheoliad 13, ar ôl paragraff (3) ychwanegir y paragraff canlynol—

“(4) No person shall operate any licensed low throughput slaughterhouse unless he has notified the Agency, in accordance with paragraph (1) above, of the number and origin of the birds or rabbits to be slaughtered there.”.

(7) Ym mhob un o baragraffau (1) a (2) o reoliad 15 (dogfennau cludo) diddymir yr ymadrodd “Subject to paragraph (3) below”.

(8) Diddymir paragraff (3) o reoliad 15.

(**6**) O.S. 1995/540, a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/1763, O.S. 1995/2148, O.S. 1995/2200, O.S. 1995/3205, O.S. 1997/1729, O.S. 2000/656 ac O.S. 2001/2198 (Cy.158).

(9) Ym mharagraff (1)(a)(i) o reoliad 18 (dyletswyddau meddiannydd), mewnosodir y geiriau "and origin" ar ôl y gair "species".

(10) Yn Rhan I o Atodlen 5 (adeiladwaith, cynllun, ac offer lladd-dai trwybwn isel a safleoedd torri trwybwn isel) yn lle paragraff 5 rhoddir y canlynol—

"**5.** Refrigeration equipment which—

(a) is adequate to keep the internal temperature of meat at the levels required by Schedule 12; and

(b) has a drainage system linked to the waste water pipes which minimises the risk of contamination of meat;".

(11) Ym mharagraff 11(j) o Atodlen 8, yn lle'r gair "producer" rhoddir y gair "occupier".

(12) Yn lle paragraff 1(a) o Atodlen 14 (cludiant) rhoddir y canlynol—

"(a) fresh meat shall be transported—

(i) from a licensed slaughterhouse or licensed cutting premises, other than any low throughput slaughterhouse or low throughput cutting premises, by means of transport fitted with a hermetic closing system or, in the case of fresh meat imported from or intended to be transported through a third country, in a sealed means of transport, which in each case is designed and equipped in such a way that the temperatures specified in Schedule 12 are maintained throughout transportation; and

(ii) from a slaughterhouse licensed as a low throughput slaughterhouse, or cutting premises licensed as low throughput cutting premises, by means of transport designed and equipped in such a way that the temperatures specified in Schedule 12 are maintained throughout transportation;".

**Diwygiad Canlyniadol**

**3.** I'r graddau y mae Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996 yn gymwys i Gymru, diwygir paragraff 7 o Atodlen 2 iddynt (rheoliadau sy'n berthnasol i fasnach o fewn y Gymuned) drwy osod y cyfeiriadau canlynol yn lle'r geiriau "The Meat (Disease Control) (Wales) Regulations 2000;":

"SI 2000/2257 (Cy.150);

The Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) (Amendment) (Wales) Regulations 2001;".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)

*Rhodri Morgan*
Prif Ysgrifennydd y Cynulliad Cenedlaethol

14 Ionawr 2002

(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) 1995 ("Rheoliadau 1995") i'r graddau y mae'r Rheoliadau hynny'n gymwys i Gymru. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i Brydain Fawr gyfan. Mae Rheoliadau diwygio tebyg yn cael eu gwneud ar gyfer Lloegr a'r Alban. Effaith y diwygiadau yw—

(a) datgymhwyso Rheoliadau 1995 i'r graddau y mae ffermwyr sy'n cynhyrchu nifer cynfyngedig o adar neu gwningod bob blwyddyn yn cyflawni gwerthiannau penodol, sef drwy adwerthu yn bennaf (*rheoliad 2(2) i (5)*);

(b) gwahardd person rhag gweithredu lladd-dy sydd â thrwybwn isel oni bai ei fod wedi hysbysu'r Asiantaeth Safonau Bwyd am nifer a tharddiad yr adar a'r cwningod sydd i'w cigydda yno (*rheoliad 2(6)*);

(c) diddymu rheoliad 15(3) (esemptio rhag y gofyniad i anfon dogfennau cludiant gyda chig ffres) a gwneud diwygiadau canlyniadol i reoliad 15(1) a (2) (*rheoliad 2(7) ac (8)*);

(ch) diwygio rheoliad 18(1)(a) (dyletswydd meddiannydd i gadw cofnodion) i'w gwneud yn ofynnol i feddiannydd safle trwyddedig gofnodi tarddiad cig sy'n dod i'r safle (*rheoliad 2(9)*);

(d) diwygio gofynion paragraff 5 o Ran I o Atodlen 5 mewn perthynas ag offer oeri mewn lladd-dai trwybwn isel a safleoedd torri trwybwn isel (*rheoliad 2(10)*);

(dd) cywiro gwall ym mharagraff 11 o Atodlen 8 (*rheoliad 2(11)*);

(e) diwygio gofynion paragraff 1(a) o Atodlen 14 i Reoliadau 1995 mewn perthynas â chludo cig ffres adar o ladd-dai trwybwn isel a safleoedd torri trwybwn isel (*rheoliad 2(12)*).

**2.** Daw'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn i rym ar 1 Chwefror 2002 ac eithrio'r rhai ym mharagraffau (2), (3), (4) a (5) o reoliad 2 sy'n dod i rym ar 1 Rhagfyr 2002.

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu, yn rhannol, ddarpariaethau—

(a) Cyfarwyddeb y Cyngor 91/495/EEC ynghylch iechyd y cyhoedd a phroblemau iechyd anifeiliaid sy'n effeithio ar osod cig cwningod a chig adar hela wedi'i ffermio ar y farchnad (OJ Rhif L268, 24.9.91, t.41); a

(b) Cyfarwyddeb y Cyngor 71/118/EEC ynghylch problemau iechyd sy'n effeithio ar gynhyrchu cig dofednod ffres a'i osod ar y farchnad, y ceir ei destun wedi'i gydgrynhoi yn atodiad i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/116/EEC (OJ Rhif L62, 15.3.93, t.1).

**4.** Mae Rheoliad 3 (a wneir o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972) yn gwneud diwygiad canlyniadol i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996 i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

**5.** Mae arfarniad rheoliadol yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ac wedi'i osod yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 1, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.